Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint: Cylch Gorchwyl

1. Trosolwg a Phwrpas

Pwrpas y Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol (FfRhA) yw ymgynghori a chynorthwyo'r Cyngor â'r broses o baratoi'r Cynllun. Bydd gan y FfRhA rôl bwysig i'w chwarae ym mhrif gamau'r gwaith o baratoi'r Cynllun drwy weithredu fel bwrdd seinio i drafod materion ac opsiynau allweddol. Gan hynny bydd yn darparu fforwm i rannu barn a syniadau er mwyn helpu i gynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol newydd Sir y Fflint.

Disgwylir i'r broses o greu Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) gymryd 5 mlynedd cyn iddo gael ei fabwysiadu. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd y FfRhA yn gweithredu ar sail cyfarfodydd ffurfiol rheolaidd. Ar ôl mabwysiadu'r Cynllun, mae'n bosibl y bydd yn fanteisiol i'r grŵp barhau i gyfarfod, efallai er mwyn monitro'r Cynllun.

Mae'r FfRhA yn tynnu'n helaeth ar y Bwrdd Gwasanaeth Lleol presennol ac mae hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o randdeiliaid allweddol yn y sector cyhoeddus a phreifat er mwyn sicrhau cynrychiolaeth o amryw o ddisgyblaethau gan gynnwys rhai cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Mae'r Fforwm yn ceisio cael ystod digon eang o aelodau ond heb fod yn rhy fawr i gael trafodaeth a chynnydd drwy sicrhau consensws lle bo hynny'n bosibl. Dylid pwysleisio nad yw'r FfRhA yn gorff sy'n gwneud penderfyniadau ac mai Aelodau etholedig y Cyngor sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ynglŷn â'r Cynllun.
.

2. Amcanion

Bydd y FfRhA yn cynorthwyo i:

i. gynghori'r Cyngor ar faterion allweddol ac ar gyfnodau allweddol yn y gwaith o baratoi'r Cynllun newydd;
ii. lledaenu gwybodaeth am y CDLl i'w partneriaethau a'u sefydliadau a thu hwnt;
iii. dod â gwybodaeth, gwaith ymchwil a syniadau o'u sefydliadau neu bartneriaethau at sylw'r tîm CDLl;
iv. sicrhau fod y CDLl yn adlewyrchu anghenion cymunedau, economi ac amgylchedd Sir y Fflint;

Mae'n bosibl y bydd angen ychwanegu mwy o amcanion at y CDLl wrth iddo ddatblygu. Pe bai hynny'n digwydd, rhoddir cyfle i'r Fforwm drafod unrhyw adolygiadau i'r cylch gorchwyl.

3. Mandad

Grŵp ymgynghorol yw hwn a bydd yn gweithredu'n fwy llwyddiannus os cynhelir y nod o gynhyrchu CDLl cadarn a chydlynol a bod cyfaddawd a chonsensws yn cael eu cyflawni. Gan hynny bydd angen i aelodau'r grŵp:

i. allu a bod yn barod i wneud penderfyniadau ac argymhellion ar ran eu corff yn y cyfarfodydd mewn perthynas â'r CDLl;

ii. bod yn ymroddedig i helpu i arwain yr ACLl i gynhyrchu CDLl cadarn (mae profion cadernid yn cyfeirio at bolisïau'r CDLlau (profion cysondeb, cydlyniant ac effeithiolrwydd) yn ogystal â phrosesau cynhyrchu'r CDLl (profion gweithdrefnol));
iii. gweithio gyda'r FfRhA, parchu barn sy'n wahanol i'w barn eu hunain, ceisio consensws a derbyn cyfaddawd i ddod i gytundeb ynglŷn â phroblemau a roddir gerbron y Fforwm;
iv. bod â meddwl agored ac ystyried y darlun cyfan, peidio â cheisio hyrwyddo buddiannau adrannol yn unig; a
v. bod yn ymroddedig i'r CDLl a chynorthwyo ac annog ei ddatblygiad

4. Cyfansoddiad
Nodir aelodaeth y FfRhA yn Atodiad 1. Mae angen iddo fod yn ddigon mawr i fod yn gynrychiadol ac yn ddigon bach i fod yn effeithiol. Mae'r canllawiau ar gyfer paratoi CDLlau yn annog yr Awdurdod Lleol i ddefnyddio grwpiau neu strwythurau presennol cymaint ag sy'n bosibl o ran ymgysylltiad, yn arbennig y rheiny a sefydlwyd ar gyfer y Strategaeth Gymunedol. Gan fod cyfuniad y Strategaeth Gymunedol i fod i ddarparu safbwynt cytbwys y cymunedau sy'n byw ac yn gweithio yn Sir y Fflint, mae'r sefydliadau hynny ar y Bwrdd Gwasanaeth Lleol presennol a oedd yn gysylltiedig â datblygu'r Strategaeth Gymunedol yn ffurfio rhan allweddol o aelodaeth y FfRhA.

Bydd cylch gorchwyl y FfRhA ar gael ar wefan y CDLl a bydd yn cynnwys enwau aelodau'r FfRhA a'u manylion cyswllt. Bydd hyn yn caniatáu i'r rheiny sydd heb gael gwahoddiad i fod yn rhan o'r Fforwm Rhanddeiliaid Allweddol i roi eu barn i unrhyw aelod priodol o'r grŵp neu'r tîm blaengynllunio. Cydnabyddir y gall fod sefydliadau eraill a allai hefyd gyfrannu at y broses. Fodd bynnag, pwrpas y grŵp yw darparu bwrdd seinio ar gyfer y broses a dim ond un dull ydyw o gynnwys rhanddeiliaid.

5. Aelodaeth o Sefydliadau Unigol
Yn gyffredinol, os yw hynny'n bosibl, dylid cyfyngu nifer yr aelodau o unrhyw sefydliad i un unigolyn gan y gallai cynrychiolwyr ychwanegol effeithio ar gydbwysedd buddiannau yn y grŵp. Mae'r aelodau o Gyngor Sir y Fflint naill ai'n gyfrifol am gynhyrchu'r CDLl neu am faes gwasanaeth allweddol sy'n berthnasol i'r Cynllun.

6. Dirprwyon
Derbynnir na fydd modd i rai aelodau fod yn bresennol ym mhob cyfarfod. Gellir anfon cynrychiolydd yn lle'r aelod gwreiddiol cyn belled â bod y dirprwy'n gwbl ymwybodol o ganlyniadau cyfarfodydd blaenorol ac mewn sefyllfa i gyfrannu'n weithredol.

Os nad oes dirprwy addas ar gael, caiff unrhyw ymatebion neu sylwadau eu derbyn drwy e-bost, er y dylid eu cyflwyno i'r ACLl o leiaf dri diwrnod cyn dyddiad unrhyw gyfarfod, er mwyn i'r wybodaeth gael ei hadolygu a'i chyflwyno i'r Fforwm fel sy'n briodol.

7. Y Cadeirydd
Cadeirydd y cyfarfod fydd y Rheolwr Strategaeth Cynllun, a'r Is-Gadeirydd fydd Arweinydd y Tîm Polisi Cynllunio. Yn gyffredinol cynhelir cyfarfodydd y grŵp ar ffurf trafodaethau a hwyluswyd.

8. Amlder

Yn ystod cyfnod y CDLl hwn rhagwelir y bydd angen i'r FfRhA gyfarfod yn rheolaidd, ond bydd hyn yn dibynnu ar ba gam y mae'r Cynllun wedi cyrraedd. Yn gyffredinol nid yw'n debygol o gael ei gynnal mwy nag unwaith bob 3 mis ond dim llai nag unwaith bob 6 mis. Ar adegau penodol yn y broses efallai y bydd cyfnodau hirach rhwng cyfarfodydd ac efallai y bydd cysylltu drwy e-bost yn ddigonol. Er mwyn rhoi amser i aelodau gynllunio ar gyfer cyfarfodydd yn eu hamserlenni, bydd dyddiadau cyfarfodydd yn cael eu trefnu mor bell o flaen llaw ag sy'n ymarferol. Efallai y bydd angen galw cyfarfod ar fyr rybudd oherwydd amgylchiadau anrhagweladwy lle mae angen cynnal cyfarfod brys a bydd yr aelodau'n cael cymaint ag sy'n bosibl o rybudd o flaen llaw.

9. Gwybodaeth
Anfonir agenda ac unrhyw wybodaeth gefndirol angenrheidiol ar gyfer pob cyfarfod at aelodau'r grŵp dim hwyrach na phedwar diwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod. Er mwyn sicrhau ffocws i bob cyfarfod, bydd unrhyw ganlyniadau angenrheidiol yn cael eu dynodi'n glir.

10. Datrys Anghytundeb
Mae'r grŵp yn un ymgynghorol ei natur yn unig a bydd yn cynorthwyo i arwain y gwaith o gynhyrchu'r CDLl lle bo hynny'n briodol. Y nod yw sicrhau consensws ymysg y FfRhA ond mae'n bosibl na fydd hynny'n digwydd ar bob achlysur a bydd pleidlais yn cael ei chynnal neu bydd cofnod yn cael ei wneud o'r safbwyntiau gwahanol. Mewn achosion fel hyn, y Swyddogion fydd yn gyfrifol am wneud argymhellion ynglŷn â'r cynllun a bydd Aelodau'r Cyngor yn gyfrifol am wneud penderfyniadau.

11. Dulliau Adrodd
Caiff nodiadau o drafodaethau a chanlyniadau pob cyfarfod eu hanfon ymlaen at aelodau ar ffurf electronig neu ar bapur os nad oes gan yr aelod fynediad at e-bost. Oni bai fod sylwadau neu gywiriadau'n cael eu derbyn cyn pen 14 diwrnod ar ôl y dyddiad cylchredeg caiff y cofnod ei gadarnhau fel un cywir. Bydd nodiadau'r cyfarfodydd ar gael ar wefan y Cyngor unwaith y byddant wedi cael eu hystyried gan Aelodau Grŵp Strategaeth Cynllunio'r Cyngor.

Atodiad 1
Fforwm Rhanddeiliad Allweddol Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint (Aelodau)

Bwrdd Iechyd Lleol Sir y Fflint / Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr / Ymddiriedolaeth y GIG Gogledd Cymru

David Johnson

Pencadlys Heddlu Gogledd Cymru
Sharon McCairn,

Gwasanaeth Tân Ac Achub Gogledd Cymru, Pencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Chris Nott

Coleg Cambria – Glannau Dyfrdwy
Steve Jackson

Grŵp Tai Pennaf,
Arwyn Evans

Chwaraeon Cymru
Sue Maughan

LICC
Heledd Cressey

Taith
Stephen O Jones – CSyFf

Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)
Angharad Crump

Cadw
Ashley Batten

Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE
Tony Hughes

Dŵr Cymru
Dewi Griffiths

Scottish Power
Louise Edwards

Dŵr Dyffryn Dyfrdwy
Mark Billing

Y Grid Cenedlaethol
Damien Hawke

Wales and West Utilities.
Danielle Royce

Prif Swyddog Gweithredol / Arweinydd / Aelod Cabinet yr Amgylchedd CSyFf
Prif Weithredwr - Colin Everett,
Arweinydd y Cyngor – y Cyng. Aaron Shotton
Aelod Cabinet yr Amgylchedd y Cyng. Bernie Attridge

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Nicola Corbishley a Linda Sharp

Cyngor Sir Ddinbych
Graham Boase

Cyngor Gorllewin Swydd Caer a Dinas Caer
Jeremy Owens,

Cyngor Cilgwri
Andrew Frazer

Cynrychiolydd Cynghorau Tref a Chymuned – Un Llais Cymru a Gogledd Cymru
Mr Lyn Cadwallader

Cymdeithas Cynghorau Tref a Chymunedau Mawr
Robert A Robinson

Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi
Mark Harris

Siambr Fasnach Caer, Ellesmere Port a Gogledd Cymru
Colin Brew

Canolfannau Manwerthu / Canol Trefi
Niall Waller

Gwasanaethau Hamdden
Mike Welch

Airbus
David A. Adams a Richard Grundy

Cymdeithas Dwristiaeth Sir y Fflint
Cyd Gadeiryddion, Sandra Blackwell a Christine Artus
Undeb Amaethwyr Cymru
Brian Coleclough
Bwrdd Ardal Fenter
David Jones
Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint
Ann Woods
Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig Mike Moriarty
Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd Powys
Chris Martin a Mark Walters

Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt
Gogledd-Ddwyrain Cymru

Ms Leah Williams
Cymdeithas Y Cerddwyr,
Howard White,
John Roberts
Cadeirydd Grŵp Gweithredu 50+ (Sir y Fflint);
Mr. Gerald Kitney,